Celfyddydau Perfformio

Edexcel BTEC Diploma Lefel 2

Pwy fydd yn darparu'r cwrs hwn?

Bydd y cwrs hwn yn cael ei ddarparu gan Ysgol Ardudwy a mae cyfle i gydweithio gydag ymwelwyr/pobl broffesiynol o'r tu allan mewn ambell i uned.

Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Mi wneith y cwrs dy ddysgu:

- am y dair prif elfen o berfformio; actio, dawns a chanu.
- am swyddi o fewn y maes.
- am ochr fusnes y theatr– cyllideb a hysbysebu.
- sut i ddyfeisio a pherfformio dramâu neu gyfansoddi a pherfformio cerddoriaeth.
- am yr ochr dechnegol o'r theatr.
- am ddramodwyr enwog ac astudio dramâu.
- am wahanol arddulliau dramatig ac arddull perffomio.

Sut y byddaf yn dysgu?

Mae'r cwrs yn gymysgedd o waith cwrs a gwaith ymarferol. Mae'n rhaid cwblhau 7 Uned ac mae'n bosib i ddysgwr ddewis ei lwybr ei hun; mwy o Unedau Cerddorol neu Actio yn ôl ei ddiddordeb. Bydd dysgwr yn cael cyfle i baratoi ac ymarfer ei sgiliau yn y dosbarth cyn cael ei asesu.

Sut y byddaf yn cael fy asesu?

Byddi di'n cynhyrchu gwaith cwrs ysgrifenedig a llunio perfformiadau ymarferol bydd yn cael eu hasesu gan dy athro, does dim arholiadau. Mae'r cwrs yma cyfwerth â 4 TGAU A* i C.

Beth fydd yn digwydd ar ôl y cwrs yma?

Ar ôl Blwyddyn 11, gelli di fynd ymlaen i astudio cwrs arall lefel 2 yn y coleg fel NVQ yn y Celfyddydau Perfformio neu gelli ddilyn cwrs Lefel 3 neu Lefel A mewn Drama, Cerddoriaeth neu Ddawns.

Syniadau am swyddi

- Actor
- Rheolwr Llwyfan
- Cynllunydd Set
- Difyrrwr
- Technegydd
- Cyfarwyddwr
- Canwr
- Athro/awes Dawns
- Athro Celfyddydau Perfformio
- Swyddi Gweinyddol ym myd y theatre
- Cynhyrchydd

Ymlaen

Ysgol Eifionydd Porthmadog